



Help! Rydw i newydd gael fy nerbyn ar Raglen Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd Athrofa Padarn Sant

(BTh Anrh mewn Diwinyddiaeth ar gyfer Disgyblaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth) 21-22

Annwyl gyfeillion,

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i chi ddechrau eich cwrs gyda ni ym mis Medi.

I rai ohonoch, bydd y newid i fod yn fyfyrwr ar ein cwrs BTh yn hawdd. Efallai fod gennych chi eisoes radd yn un o'r celfyddydau neu'r dyniaethau, er enghraifft. Neu efallai eich bod eisoes yn darllen llawer am ddiwinyddiaeth yn eich amser hamdden. Fodd bynnag, i'r rhan fwyaf o'n myfyrwyr, mae astudio diwinyddiaeth yn rhywbeth newydd iawn, a gall deimlo'n anodd iawn neu'n frawychus hyd yn oed. Os ydych chi'n teimlo fel hyn, peidiwch â phoeni! Byddwch yn yr un cwch â'r rhan fwyaf o'n myfyrwyr ni.

Beth alla i ei wneud i baratoi?

Weithiau, bydd myfyrwyr yn dymuno dechrau ar y gwaith darllen, fodd bynnag, byddai'n well gennym pe baech yn treulio'r haf yn ymlacio (os gallwch chi) ac yn mwynhau eich hun. Mae taro cydbwysio rhwng astudiaethau rhan-amser a bywyd arferol yn anodd. Y peth pwysicaf y gallwch chi ei wneud i baratoi yw edrych ar eich dyddiadur a gwneud yn siŵr eich bod yn neilltuo amser i astudio, pan na fydd unrhyw beth arall yn mynd â'ch sylw.

Fodd bynnag, os ydych yn dymuno darllen, bydd y llyfrau a ganlyn yn rhoi syniad i chi o lefel y cwrs a'r mathau o gwestiynau y byddwch yn eu hystyried:

- The Reflective Disciple gan Roger Walton (cyhoeddwyd gan SCM Press) – tan yn ddiweddar, gwर्सlyfr ar gyfer cwrs oedd hwn, ac mae'n gwneud cyylltiadau defnyddiol rhwng disgyblaeth, myfyrio a diwinyddiaeth.
- Peter's Preaching: The message of Mark's Gospel gan Jeremy Duff, y pennaeth – mae'n archwilio'n fanwl y mathau o gwestiynau a ofynnir wrth edrych ar y Beibl er mwyn ei ddeall yn well ar gyfer ein bywydau ni. Fe'i cyhoeddwyd gan y Bible Reading Fellowship.
- Mae Phoebe gan Paula Gooder a gyhoeddwyd gan Hodder and Stoughton yn nofel am Phoebe, sy'n gydweithiwr i'r Apostol Paul ac yn ddiakon. Mae'r llyfr hwn hefyd yn rhoi dealltwriaeth unigryw o fyd y Testament Newydd a bydd yn eich helpu i ymglyfarwyddo â sut y byddwn yn edrych ar y Beibl gyda'n gilydd. Mae hefyd ar gael ar ffurf llyfr llafar. Fel nofel, yn bendant, mae'n fath o lyfr y gallech fynd ag ef gyda chi ar wyliau.

Sgiliau Astudio

Y llyfr rydym yn ei argymell ar sgiliau astudio yw:

- The Study Skills Handbook gan Stella Cottrell a gyhoeddwyd gan Palgrave.

Byddwn yn llunio deunyddiau a sesiynau ar sgiliau astudio drwy gydol y flwyddyn, felly cadwch eich llygaid ar agor amdanynt!

O ran ysgrifennu traethodau, llyfr arall rydym yn ei argymell yw First Class Essays: The 24hour Roadmap Method: (Study Skills Book: Essay Writing for University) gan Martin Horton Eddison. Mae gan y llyfr hwn ei dudalen Facebook ei hunan hyd yn oed! Dim ond ar kindle y mae ar gael. Ein hunig gafeat fyddai, er bod y llyfr hwn yn argymell na ddylech ysgrifennu yn y person cyntaf, mae hyn yn gwbl dderbyniol yn ein barn ni. Fel arall, mae'r llyfr hwn yn cynnwys cyngor rhagorol drwyddo draw.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi wyllo'r sesiwn sgiliau astudio hon hefyd gan ei bod yn rhoi llawer o awgrymiadau ar bob agwedd ar astudio diwinyddiaeth:

<https://youtu.be/Kq227Pfk6VI>

Moodle

Yr unig beth, y byddem yn gofyn i chi ei wneud yw paratoi ar gyfer gallu dysgu ar-lein. Mae gallu mynd ar Moodle (ein platfform dysgu rhithwir) o leiaf unwaith yr wythnos yn bwysig iawn ac mae creu cyfeiriad e-bost Athrofa Padarn Sant i chi eich hun yn rhan hanfodol o'r cwrs gan mai dyma sut y byddwn yn cyfathrebu â chi. Nid yw hyn oherwydd ein bod ni'n bod yn lletchwith! Mae rhesymau fel deddfwriaeth GDPR sy'n golygu na allwn ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost personol mewn unrhyw restrau grwpiau. **Fodd bynnag, trefnwch i'ch negeseuon e-bost gael eu hanfon ymlaen i'ch cyfeiriad e-bost personol chi cyn gynted â phosibl neu gwiriwch eich cyfeiriad e-bost Athrofa Padarn Sant yn rheolaidd iawn, bob diwrnod o bosibl.**

Ceisiwch dreulio'r amser hwn cyn y cwrs yn datblygu eich hyder o ran defnyddio Moodle a'r adnoddau ar-lein eraill.

Cael eich Asesu

Hoffem ofyn i chi hefyd dreulio amser cyn dechrau'r cwrs yn myfyrio ar sut rydych chi'n teimlo am gael eich asesu. Mae meini prawf penodol ar gyfer pob lefel, ac rydym yn marcio yn unol â'r rheini. Weithiau, ychydig iawn o sylwadau a gewch ac efallai y byddwch yn synnu nad yw'r marc yn uwch. Gallai hyn fod oherwydd bod y gwaith yn gadarn ond nad oedd wedi cyrraedd y targedau uwch yn y meini prawf. Neu efallai y byddwch yn cael marc da iawn gyda llawer o sylwadau ynghylch sut y gallwch wella, a allai fod yn annisgwyl. Gallai hyn fod oherwydd bod y marciwr yn teimlo y gallai eich gwaith fod hyd yn oed yn well!

Ceisiwch beidio â gadael i sylwadau beirniadol eich digalonni; maent yno i'ch helpu i ddysgu. Os nad oes unrhyw sylwadau, bydd hynny oherwydd bod eich gwaith yn dda, siŵr o fod. Nid yw marcio yn adlewyrchiad ohonoch chi fel person na'ch deallusrwydd hyd yn oed! Yn wir, mae gennym oll wahanol fathau o ddeallusrwydd, doniau a galluoedd ac nid yw nifer o'r rhain yn cael eu hasesu drwy aseiniadau. Cofiwch mai celfyddyd nid gwyddoniaeth yw marcio, a dim ond un agwedd ar yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu o fodiwl y bydd y marciwr yn ei gweld. Y peth pwysig yw eich bod yn mwynhau yr hyn rydych chi'n ei ddysgu a'i fod yn helpu eich ffydd a'ch disgyblaeth i dyfu.

Yn olaf

....cofiwch, nid yw unrhyw gwestiwn yn gwestiwn gwirion! Os oes angen help arnoch chi gydag unrhyw beth, gofynnwch; mae eich tiwtor a'r holl staff yn Athrofa Padarn Sant yma i helpu. Fodd bynnag, cofiwch ein bod yn rhoi'r holl wybodaeth y credwn sydd ei hangen arnoch ar Moodle ac yn y wybodaeth am y cwrs, felly byddem yn eich annog i wneud yn siŵr eich bod yn darllen hyn i gyd yn ofalus.

Ac os ydych yn teimlo'n nerfus am y cwrs, peidiwch â phoeni, nid chi yw'r unig un. Mae'n gyffredin teimlo'r hyn a elwir yn 'syndrom dynwardwr', sef y teimlad bod pawb yn perthyn heblaw ni, neu fod pawb yn alluog ac yn hyderus heblaw ni. Os ydych chi'n teimlo fel hyn, gwylwch y fideo hwn:

<https://www.youtube.com/watch?v=ZQUxL4Jm1Lo>